

Cofnodion cymeradwy Cyfarfod Agored Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2017 yn Swyddfa'r Asiantaeth Safonau Bwyd, Tŷ Southgate, Wood Street, Caerdydd

Yn bresennol:

Aelodau Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru (WFAC) a oedd yn bresennol:

Dr R Hussey
Mr R Alexander
Mr D Morgan
Dr H Jones
Mr D Peace
Mrs S Jones
Dr N Barry

Swyddogion yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a oedd yn bresennol:

Richard Bowen – Cyfarwyddwr (Dros Dro) yr Asiantaeth yng Nghymru
Helen George – Ysgrifenyddiaeth
Lucy Edwards – Ysgrifenyddiaeth
Mark Willis drwy Fideo-gynadledda ar gyfer Papur FSAW 17-06-04
Nina Purcell drwy Fideo-gynadledda ar gyfer Papur FSAW 17-06-05
Patrick Miller drwy Fideo-gynadledda ar gyfer Papur FSAW 17-06-06

1. Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i gyfarfod agored y Pwyllgor, a rhoi gwybod i'r rheiny a oedd yn bresennol am y siaradwyr gwadd a fyddai'n cyflwyno papurau.

2. Datganiadau o fuddiannau

2.1 Fe nododd aelodau'r Pwyllgor y datganiadau canlynol o fuddiannau:

- Dywedodd David Peace ei fod yn gadeirydd anweithredol grŵp Hall Mark, ac yn gynghorydd busnes i fusnes bwyd fferm yn Sir Fynwy.
- Cynghorodd Norma Barry ei bod yn aelod o'r Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod a hefyd yn Llysgennad Gwin i Gymru fel rhan o'r rôl hon.
- Cynghorodd Ruth Hussey mai hi yw Cadeirydd yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.

2.2. Nodwyd pob datganiad. Ni wnaeth unrhyw aelod dynnu'n ôl o'r trafodaethau.

3. Cofnodion y cyfarfod agored diwethaf (Papur FSAW 17/06/01)

3.1 Derbyniwyd cofnodion drafft y cyfarfod agored a gynhaliwyd ar 9 Mawrth fel cofnod cywir o'r trafodaethau. Cytunwyd y dylid cyfieithu'r cofnodion terfynol a'u rhoi ar y wefan. **Cam gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

4. Adroddiad gan y Cadeirydd (Papur FSAW 17/06/02)

4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd ei hadroddiad ysgrifenedig ar y materion a godwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2017. Wrth gynnig sylwadau ar yr adroddiad, rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad i'r Pwyllgor ar yr ymweliadau a'r cyfarfodydd y mae wedi mynychu ers y cyfarfod Pwyllgor diwethaf. Mewn diweddariad pellach ar lafar, soniodd y Cadeirydd am hynt y broses i recriwtio dau aelod arall i Bwyllgor Cyngkori ar Fwyd Cymru. Hefyd, mynegodd y Cadeirydd ei diolch o'r mwyaf i'r aelodau Derek Morgan a Sue Jones am eu cyfraniadau i'r pwyllgor yn ystod eu cyfnodau.

5. Diweddariad gan y Cyfarwyddwr (Papur FSAW 17/06/03)

5.1 Cyflwynodd Cyfarwyddwr dros dro Cymru ei adroddiad rheolaidd i'r Pwyllgor, gan roi gwybod am nifer o faterion. Roedd y rhain yn cynnwys y gweithgor sydd wedi'i gomisiynu gan Rebecca Evans AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i ystyried ymgysylltu pellach â rhaglen Rheoleiddio ein Dyfodol, yn arbennig mewn perthynas â thirlun Llywodraeth Leol Cymru a diweddariadau ac ymgynghoriadau awdurdodau lleol. Gan ddilyn hyn, trafodd y Cyfarwyddwr gam nesaf digwyddiadau ymgysylltu Rheoleiddio Ein Dyfodol ag awdurdodau lleol, gan gynnwys digwyddiad i'w gynnal yng Nghymru ar 11 Gorffennaf yn Llandrindod. Mynegodd nifer o aelodau'r Pwyllgor ddiddordeb mewn bod yn bresennol yn y digwyddiad hwn, a gofynnwyd i'r weithrediaeth hwyluso'r cais hwn.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am gyhoeddiad gan Mark Drakeford, Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yng Nghymru, ei fod yn cynnig gwneud cyhoeddiad yn fuan i amlinellu'r camau nesaf o ran diwygio llywodraeth leol yng Nghymru. Yn ogystal, roedd y papur yn rhoi gwybod bod Bil Iechyd Cyhoeddus eang yn cael ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 16 Mai a fydd yn cyflwyno casgliad newydd o fesurau i wella iechyd a lles pobl Cymru. Mae hyn yn cynnwys darpariaethau yn ymwneud â Chynllun Sgorio Hylendid Bwyd yng Nghymru lle bydd derbynebaw ar gyfer rhoi Hysbysiadau Cosb Benodedig am beidio ag arddangos sgoriau yn cael eu cadw gan awdurdodau lleol at ddibenion gorfodi diogelwch bwyd.

6. Halogion Cemegol (Papur FSAW 17/06/04)

6.1 Trafododd aelodau'r Pwyllgor y papur a oedd yn amlinellu dull yr Asiantaeth o reoli'r peryglon halogi cemegol mewn bwyd a'r prif risgiau y maent yn eu peri i ddefnyddwyr a masnach. Roedd y papur hefyd yn nodi'r egwyddorion polisi sydd wedi'u datblygu i reoli risg yn effeithiol.

Nododd y Pwyllgor y set o egwyddorion a amlinellwyd yn y papur i lywio gweithgarwch ar reoli peryglon halogion cemegol gan nodi hefyd bod halogion cemegol yn her anodd, i'r ASB, mewn perthynas â deall a mesur y risgiau. Dywedodd y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol cael dadansoddiad manylach o'r goblygiadau adnoddau i'r ASB sy'n gysylltiedig â'r gwaith ar halogion cemegol. Gofynnodd aelodau hefyd, er mwyn gallu cymharu, beth yw'r goblygiadau adnoddau sydd ynghlwm â halogion microbiolegol. Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai'n ymarfer defnyddiol nodi'r canlyniadau yn erbyn yr adnoddau.

6.2 Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod data cyfyngedig ar farwolaethau a thriniaethau yn yr ysbyty sy'n gysylltiedig â chysylltiad â halogion cemegol mewn bwyd. O ran hyn, roedd y Pwyllgor o'r farn ei bod yn bwysig gallu deall baich llawn clefydau. Cafodd y Pwyllgor ei annog i ddysgu am y trafodaethau sy'n mynd rhagddynt yn yr Adran Iechyd, gyda'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a chyda sefydliadau eraill, i helpu i lywio'r safbwynt.

6.3 Roedd arsylwadau eraill a wnaed gan y Pwyllgor yn cynnwys:

- pa mor bwysig yw cyfathrebu negeseuon perthnasol ac effeithiol i ddefnyddwyr;
- yr angen i ddeall ble yn y gadwyn fwyd mae halogion yn peri risg uwch; a
- deall yr effaith mae halogion cemegol yn ei chael ar fasanachu rhyngwladol. Mae'n bosibl y bydd gofyn addasu'r fframwaith ar gyfer rheoli risgiau ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

7. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Papur FSAW 17/06/05)

7.1 Aeth aelodau ati i ystyried y papur a oedd yn disgrifio'r camau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd, drwy gyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Roedd y papur yn amlinellu'r heriau y mae Cymru yn eu wynebu, nawr ac yn dyfodol. Roedd hefyd yn amlinellu'r camau gweithredu y bydd gofyn i gyrff cyhoeddus eu cymryd, mewn ffordd gydlynol, i wireddu'r weledigaeth o wella lles cymdeithasol,

economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Roedd y papur hefyd yn nodi amcanion strategol a gweithgarwch yr ASB sy'n alinio ac yn cyfrannu at ddyheadau Llywodraeth Cymru.

7.2 Yn ei drafodaethau ar y papur, nododd y Pwyllgor y dull cadarnhaol sydd wedi'i weithredu hyd yn hyn, i alinio a mapio rhai o brif weithgareddau'r ASB yn erbyn nodau ac egwyddorion y Ddeddf. Roedd yn cydnabod pa mor bwysig yw bod yr ASB yn cyfrannu at y dangosyddion cenedlaethol sydd wedi'u gosod at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau Lles. Yn ei ystyriaethau manylach, dyma oedd gan WFAC i'w ddweud:

- roedd yn croesawu'r ffaith ein bod yn tynnu sylw'r Bwrdd at y gofyniad polisi hwn, sy'n unigryw i Gymru;
- roedd yn cefnogi dull cadarnhaol yr ASB hyd yn hyn i alinio rhai o'i phrif weithgareddau â gofynion y Ddeddf;
- yn arbennig, byddai'n gweld gwerth mewn alinio Cynllun Busnes ASB Cymru yn fanylach, er mwyn sefydlu sut y gall ei gweithgareddau gyfrannu at gyflawni'r dangosyddion cenedlaethol, a hynny fel cyflogwr ac wrth gynnal ei busnes;
- Roedd yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth gadarnhaol gan Lywodraeth Cymru a swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar y dull a argymhellwyd yn y papur i'r ASB barhau i weithio mewn ffordd sy'n ategu ac yn cyfrannu at nodau Llywodraeth Cymru i greu dyfodol diogel a chynaliadwy i Gymru.

7.3 Wrth ddod i gasgliad, croesawodd y Pwyllgor y papur gan annog y Bwrdd i gefnogi'r dull a fyddai'n llywio busnes yr ASB i wneud cyfraniad sylweddol at ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

8. Datblygu ein Dull o Nodi Peryglon a Phroblemau ar draws y System Fwyd (Papur FSAW 17/06/06)

8.1 Aeth aelodau ati i ystyried y papur a oedd yn amlinellu'r galluoedd presennol, a'r rhai sy'n datblygu, ym maes cadw gwyliadwriaeth a sganio'r gorwelion. Nododd y Pwyllgor gyfyngiadau'r dull presennol o ran cadw gwyliadwriaeth a sganio'r gorwelion o ran cynnig safbwynt gwybodus sydd wedi'i integreiddio o'r system fwyd fyd-eang, a'r risgiau systematig dros y pump i ddeng mlynedd nesaf. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r safbwynt a amlinellwyd yn y papur, sef i ddatblygu rhagor o alluoedd i nodi risgiau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. Wrth wneud hynny, roedd gan y Pwyllgor y sylwadau canlynol:

- roedd yn cefnogi'r cynnig i edrych ar bwyllgorau cyngtori arbenigol yr ASB er mwyn cynnig mewnwelediad i ddatblygu dealltwriaeth a galluoedd a fyddai'n gallu llywio Strategaeth yr ASB o 2020;
- roedd yn croesawu rôl ganolog y Pwyllgor Gwyddoniaeth wrth gynorthwyo'r ASB i ddeall a gweithredu'r gwaith sydd ei angen i ddatblygu rhwydweithiau a galluoedd;
- gan gydnabod bod nifer o rwydweithiau byd-eang sy'n edrych ar ddatblygu galluoedd, pwysleisiodd y Pwyllgor pa mor bwysig yw datblygu gallu cydweithio'r ASB. Yn y cyd-destun hwn, roedd y Pwyllgor yn cefnogi dull a fyddai'n edrych ar gydweithio â diwydiant a chyda academia i rannu data a gwybodaeth (*intelligence*);
- byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o eglurder o ran pa mor bell y dylai'r ASB ddatblygu ei Strategaeth Gallu a pha adnoddau y dylai eu buddsoddi yn y broses.

8.2 Yn ddibynnol ar yr ystyriaethau uchod, roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r dull a nodwyd yn y papur.

9. Adborth gan Rwydweithiau'r Pwyllgor

9.1 Dywedodd dau o aelodau'r Pwyllgor eu bod wedi arsylwi Fforwm Dinasyddion ar ymchwil sy'n cyfrannu at brosiect Effeithiolrwydd Hysbysiadau Galw'n Ôl, a oedd yn rhoi iddynt syniad da o safbwyntiau a meddyliau defnyddwyr ar hysbysiadau galw cynhyrchion yn ôl.

10. Sesiwn Holi ac Ateb

10.1 Caiff yr holl faterion a godwyd fel rhan o'r sesiwn eu hadlewyrchu yn y sylwadau uchod.

11. Unrhyw fater arall

13.1 Nododd y Pwyllgor y byddai'r cyfarfod agored nesaf yn cael ei gynnal ar 14 Medi 2017.

Camau Gweithredu

Mynegai	Camau gweithredu	Erbyn	Statws
Paragraff 3.1	Cyfieithu cofnodion y cyfarfod ym mis Mawrth a'u rhoi ar y wefan.	30 Mehefin 2017	Wedi'i gwblhau